CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Rhoi cymunedau'n gyntaf: Ein hadroddiad effaith

## 2016–17 i 2020–21

**Tachwedd 2021**
**Crynodeb Gweithredol**

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

# Cynnwys

Ein heffaith gyffredinol

Cymunedau ffyniannus a llewyrchus

Pobl ifanc

Cyflogaeth a chyflogadwyedd

Anghenion lluosog a chymhleth

Sero net

Grantiau argyfwng coronafeirws

**Dogfen ryngweithiol yw hon**

Gallwch lywio drwy wahanol adrannau'r canllaw gan ddefnyddio'r dolenni yn y bar uchaf a'r botymau gyferbyn.

TF21_096

# Rhagair



**Yn 1994, crëwyd y Loteri Genedlaethol i godi arian at achosion da. Ers hynny, mae dros £43 biliwn wedi'i godi, diolch ichwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Fel un o'r dosbarthwyr achos da, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf o weithgarwch cymunedol yn y DU.**

Rydym yn falch o gefnogi miloedd o brosiectau ledled y wlad. Rydym yn adlewyrchu'r materion a'r blaenoriaethau sy'n bwysig i gymunedau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Mae arian y Loteri Genedlaethol yn gwneud gwahaniaeth ac yn cyffwrdd â bywydau, gan gynnwys drwy brosiectau sy'n cefnogi cyflogaeth, pobl ifanc, seilwaith cymunedol a chymdeithasol, ein hinsawdd, a phobl sy'n wynebu rhai o heriau anoddaf bywyd.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd Ein Hymrwymiadau i Gymunedau. Fe wnaethom ddweud y byddwn yn defnyddio data ac effaith i lywio strategaeth ac ymdrechion i fesur, deall a rhannu'r hyn sy'n gweithio, pam, a ble mae'r her a'r cyfleoedd. Fel Adroddiad Effaith cynhwysfawr cyntaf erioed y Gronfa Gymunedol, dyma ein cam cyntaf ar yr ymrwymiad hwn.

Mae'n adrodd stori rymus am gyrhaeddiad, graddfa a chyfraniad y £3.4 biliwn rydym wedi'i ddyfarnu dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys cyllid penodol ar gyfer argyfwng coronafeirws yn 2020. Mae'n dangos sut mae dros 72,000 o elusennau a sefydliadau cymunedol yn cefnogi pobl a chymunedau ledled y DU i fod yn wydn, ffynnu, a llwyddo.

# Rhagair

Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae deiliaid grant yn cefnogi

5.2 miliwn o fuddiolwyr, recriwtio 4,700 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn ac yn ymgasglu 290,000 o wirfoddolwyr. Bob mis, mae tua 1.8 miliwn o bobl yn mwynhau manteision lleoliadau a gefnogir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fel parciau a neuaddau pentref. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwyddom y byddai dros hanner ein deiliaid grantiau wedi darparu llawer llai o wasanaethau heb y cymorth a oedd ar gael gan arian y Loteri Genedlaethol a'r Llywodraeth, a byddai un o bob pump wedi gorfod cau'n gyfan gwbl oherwydd yr heriau a achoswyd gan COVID-19.

Mae ein deiliaid grantiau yn sicrhau manteision cadarnhaol i bobl a chymunedau, gan wella iechyd meddwl a lles pobl, cynyddu cyswllt cymdeithasol, lleihau unigrwydd, a gwella hyder a hunan-barch.

Er enghraifft, gwyddom fod 80% o'r prosiectau sy'n cyrraedd pobl ifanc yn helpu i fagu hyder, hunan-barch a lles – ac mae 65% yn meithrin cyfeillgarwch a pherthnasoedd cryfach. Mae cyfle ibobl ifanc yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Mae'r ymchwil newydd yn dangos bod gan lawer mwy o bobl falchder lleol ac ymdeimlad o berthyn i'w hardal leol oherwydd y gwasanaethau neu'r gweithgareddau mae ein deiliaid grantiau yn eu darparu. Drwy edrych am y tro cyntaf ar effaith ein grantiau lleiaf, gallwn yn awr ddangos mai'r grantiau lleol, llawr gwlad hyn sydd â'r cyrhaeddiad mwyaf i wirfoddolwyr a buddiolwyr, ac mae'n hanfodol er mwyn gwydnwch asedau cymunedol lleol.

Rydym yn falch o rannu'r gwahaniaeth mae ein cyllid yn ei wneud i gymunedau ledled y DU, a bod yn atebol i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, na fyddai ein gwaith yn bosibl hebddynt.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i lywio ein cyfeiriad yn y dyfodol. Byddwn yn ymdrechu i wneud y gwahaniaeth mwyaf y gallwn, a bod yma i gymunedau wella, ailadeiladu a thyfu. Ym mhopeth a wnawn, byddwn yn rhoi cymunedau'n gyntaf.

**David Knott**
Prif Weithredwr
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

# Ein heffaith gyffredinol

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf o weithgarwch cymunedol yn y DU – rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu a llwyddo. Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn tynnu sylw at gyfraniad ein cyllid ar ddeiliaid grantiau, pobl a chymunedau.

Ar draws y DU rydym yn ariannu'r pethau sy'n bwysig i gymunedau, ac yn y pum mlynedd rhwng 2016–17 a 2020–21 fe wnaethom ddyfarnu £3.4 biliwn drwy fwy na 72,000 o grantiau.

**Gyda'i gilydd, mae deiliaid grantiau yn cefnogi rhwng 4.2 miliwn a 6.2 miliwn o fuddiolwyr ar draws oes eu grant.**

Rydym yn cyrraedd pob etholaeth seneddol yn y DU a chafodd dros 90% o'r holl wardiau gyllid yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Rydym yn buddsoddi mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd: dros y tair blynedd diwethaf, **aeth 51% o gyfanswm ein grantiau i'r 30% o ardaloedd lleol yn Lloegr gyda'r lefelau amddifadedd uchaf.**

Mae arian yLoteri Genedlaethol ar gyfer pawb. Rydym wedi ymrwymo i d**egwch a chynhwysiant**. Ein gweledigaeth yw un o gymunedau ffyniannus lle mae pob person yn cael ei werthfawrogi ac yn cael cyfle cyfartal.

Mae tua **42%** o'n harian yn mynd i feysydd a nodwyd fel y **flaenoriaeth uchaf** ar gyfer Cronfa Lefelu'r Llywodraeth. Derbyniodd hanner yr ardaloedd â'r angen mwyaf **63%** o'r holl grantiau. Y llynedd, roedd gwerth ein grantiau yn yr ardaloedd blaenoriaeth uchaf yn Lloegr **14% yn uwch**, a'r nifer o grantiau **60% yn uwch** na'r cyfartaledd dros y tair blynedd flaenorol.

Gan ddefnyddio Mynegai Ffabrig Cymdeithasol melin drafod Onward, y 10% o ardaloedd lleol â'r **angen mwyaf** agafodd y **swm cymharol mwyaf** o arian(16%).


Energy Garden, Llundain

# Ein heffaith gyffredinol mewn blwyddyn nodweddiadol

Ym mis Ebrill 2021, i'n helpu i ddeall cyrhaeddiad ac effaith ein grantiau ymatebol, comisiynwyd ymchwil annibynnol gan IFF Research. Dywedodd sefydliadau a ariennir wrthynt fod cymorth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mewn blwyddyn arferol, yn golygu:

Gall deiliaid grantiau gefnogi **5.2 miliwn o fuddiolwyr** recriwtio **4,700 o aelodau staff cyfwerth ag amser llawn** ac ysgogi **290,000 o wirfoddolwyr.**

Grantiau bach yw dros **80%** o'n dyfarniadau yn ôl cyfaint, ond dim ond seithfed o gyfanswm y gwerth, ac eto mae ein hymchwil yn dangos bod derbynwyr y grantiau bach hyn yn cyrraedd dwy ran o dair **(3.1m)** o'r holl fuddiolwyr.

Mae deiliaid grantiau bach hefyd yn gyfrifol am ysgogi **hanner (dros 145,000)** o wirfoddolwyr mewn blwyddyn nodweddiadol.

**7,600** o ddeiliaid grantiau yn cynyddu capasiti neu'n cyrraedd mwy o fuddiolwyr.

**Mae 5,500** o ddeiliaid grantiau yn fwy gwydn.

**6,500** o sefydliadau **yn creu gweithgareddau neu wasanaethau newydd a 3,000 i newid neu addasu modelau cyflenwi presennol.**

Mae hyn i gyd yn cyfrannu at welliannau diriaethol. Er enghraifft, bob blwyddyn mae:

**6,000** o **sefydliadau'n cyrraedd buddiolwyr newydd**.

**Mae 5,300 yn gwella eu lleoedd a'u mannau lleol**.

**Mae 80,000 o wirfoddolwyr newydd** yn cael eu recriwtio a'u cadw'n uniongyrchol gyda'n grantiau.

# Ein heffaith gyffredinol

Mae **97%**

**o'n deiliaid grantiau yn adrodd am amrywiaeth o fanteision cadarnhaol i bobl.** Yn fwyaf cyffredin, mae'r rhain yn **fanteision cymdeithasol fel**

- **78%** Gwelliannau i iechyd meddwl a lles.
- **77%** Mwy o gyswllt.
- **72%** Gwell hyder a hunan-barch.

Mae **92%**

O ddeiliaid grantiau hefyd **yn cyfrannu at** fuddion cymunedol, gan gynnwys:

- **66%** Cyfleoedd i gymysgu ag eraill sy'n wahanol iddyn nhw
- **60%** Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn y gymuned.
- **56%** Mae mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gael yn lleol.

Mae **42%**

o ddeiliaid grantiau yn dweud bod gan bobl fwyo **falchder ac ymdeimlad o berthyn lleol** oherwydd eu gwasanaethau neu eu gweithgareddau.

Mae **42%**

o brosiectau a oedd yn gwella sefyllfa cyflogaeth buddiolwyr **wedi helpu pobl i ddod o hyd i swydd a'i chadw am** fwy na chwe **mis.**

**80%**

o ddeiliaid grantiau sy'n gweithio gyda phobl ifanc wedi helpu i **wella eu hyder, eu** hunan-barch a'u lles.

Mae sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl â'r anghenion mwyaf cymhleth yn nodi gwelliannau pwysig mewn **iechyd meddwl** (91%) ac iechyd a lles corfforol **(68%)**.

# Cymunedau ffyniannus a llewyrchus

Rydym wedi **dyfarnu £650 miliwn** i gefnogi datblygu seilwaith cymunedol.

**Mae 10,000 o leoedd** cymunedol wedi'u hadeiladu neu eu gwella.

Rydym wedi cefnogi **1,550 o neuaddau** pentref a chanolfannau cymunedol yng Nghymru a Lloegr, sef pedwar ar gyfartaledd fesul awdurdod lleol.

Rydym wedi helpu cymunedau ledled y DU i **gaffael** a chynnal bron i 60 0 **asedau** lleol, o dafarndai i ddatblygiadau tai.

**Yn ogystal â'r 5.2** miliwn o fuddiolwyr unigryw mae ein grantiau yn eu cefnogi'n uniongyrchol, mae **1.8 miliwn o bobl ar gyfartaledd yn elwa o leoliadau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol bob mis.**

Tynnu sylw at effaith y gwaith hwn, yn flynyddol:

Mae 45%o ddeiliaid grantiau yn dweud bod eu grant yn eu helpu i **wellalleoedd, mannau, asedau a** chyfleusterau lleol, gan gynnwys offer ac addasiadau ar gyfer hygyrchedd, a chynnal mannau awyr agored.

**Mae 42%** yn dweud wrthym fod gan bobl fwy o falchder ac ymdeimlad o berthyn lleol oherwydd y gwasanaethau neu'r **gweithgareddau rydym yn eu hariannu i'w darparu.**

**Mae 23%** yn dweud bod eu gwaith yn cyfrannu at gymunedau'n cael **gwell mynediad at seilwaith allweddol fel parciau, canolfannau cymunedol a thrafnidiaeth gymunedol.**

**Mae 16% yn dweud bod pobl yn teimlo mwy o berchnogaeth a rheolaeth dros benderfyniadau lleol.**

**Mae 5% yn arbed amwynderau fel siopau, tafarndai a chaffis rhag cau.**

# Pobl ifanc

Rhwng **2016-17 a 2020-21** fe wnaethom ddyfarnu mwy na **£1.2 biliwn** drwy 14,691 o brosiectaua rhaglenni i gefnogi pobl ifanc.

Ni yw'r prif ariannwr anstatudol ar gyfer cyfleoedd i bobl ifanc.

Yn Lloegr yn unig, dros y tair blynedd diwethaf, mae ein grantiau ar gyfer pobl ifanc ym mhob un o feysydd blaenoriaeth lefelu'r Llywodraeth (1–3) yn gyfanswm o £535 miliwn; buddsoddwyd **£235 miliwn** yn yr ardaloedd yr **ystyrir bod angen buddsoddi** arnynt fwyaf drwy'r Gronfa Lefelu i Fyny.

Gan ddefnyddio'r Mynegai Ffabrig Cymdeithasol Onward, mae'r 30% o ardaloedd lleol syddâ'r angen mwyaf wedi derbyn dros £492 miliwn (41%) dros y pum mlynedd diwethaf.

Mae 38% o ddeiliaid grantiau yn dweud eu bod yn targedu eugweithgareddau at blant a phobl ifanc bob blwyddyn, gan eu gwneud yn grŵp o bobl a dargedir amlaf ar draws ein grantiau ymatebol.

Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae dros 1,650 o ddeiliaid grantiau yn dweud wrthym eu bod yn gweithio'n benodol gyda phobl ifanc sydd mewn perygl (mewn gofal, sy'n ymwneud â thrais difrifol neu ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)).

Mae deiliaid grantiau sy'n targedu eu gweithgareddau at blant a phobl ifanc nad ydynt mewn perygl yn dweud wrthym eu bod yn helpu cyfranogwyr:

**80%** Gwell hyder, hunan-barch a lles.

**65%** Meithrin cyfeillgarwch a pherthnasoedd cryfach.

**43%** Mwy o lefydd i fynd a phethau i'w gwneud.

**31%** Gwirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol.

Ers 2011, rydym wedi cyrraedd o leiaf **1.4 miliwn o bobl** ifanc drwy ystod o raglenni ariannupwrpasol,gan gynnwys:

Talent Match, a helpodd bron i 1**2,000** o bobl ifanc bellaf o'r **farchnad lafur i sicrhau swydd,** gan gynnwys 4,500 i waith parhaus.

HeadStart, a hyfforddodd bron i 247,000 o weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ar **iechyd meddwl, gwydnwch a/neu ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.**

Cronfa #iwill, a wnaeth alluogi dros **500,800 o bobl ifanc i wirfoddoli.**

# Cyflogaeth a chyflogadwyedd

**Rhwng 2016–17 a 2020–21 fe wnaethom ddyfarnu mwy na £1.2 biliwn drwy 6,183 o brosiectau a rhaglenni sy'n anelu at hyrwyddo cyflogaeth a chyflogadwyedd.**

Ledled y DU, mae ein grantiau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn cyfateb yn fras i'r duedd mewn cyfraddau**.**

Mae 40% **(£420 miliwn)** o'n grantiau cyflogadwyedd yng Nghymru a Lloegr wedi'i ganolbwyntio yn y ddau ddegradd mwyaf difreintiedig(IMD). **Aeth £291 miliwn** (28%) **i'r degradd** mwyaf difreintiedig, mwy na dwbl hynny i'r ail fwyaf difreintiedig (12%, £130 miliwn).

Ers 2009, rydym wedi ariannu wyth rhaglen gyflogadwyedd **fawr, gwerth £755 miliwn.** Gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n wynebu rhwystrau i waith, mae'r rhaglenni hyn **wedi** cefnogi dros **181,000** o bobl, gyda manteision i gymdeithas gyfan. Er enghraifft, cynhyrchwyd o leiaf £3.08 o werth cyhoeddus **am** bob **£1 a wariwyd** **a**r Talent Match, a oedd yn rhaglen bum mlynedd a oedd yn cefnogi pobl ifanc ar hyd y ffordd i gyflogaeth.

Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae 18% o'r holl ddeiliaid grantiau yn dweud wrthym fod eu gwaith yn helpu i **wella** sefyllfa cyflogaeth eu **buddiolwyr,** hyd yn oed os nad ydynt yn ddarparwyr cymorth cyflogaeth arbenigol.

Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol (13%) yn cynnig gwasanaethau neu weithgareddau sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyflogaeth a menter. **Mae 16% yn targedu eu gwaith yn benodol at bobl sy'n ddi-waith.**

Fe wnaeth deiliaid grant sy'n defnyddio eu grantiau i wella sefyllfa cyflogaeth pobl helpu buddiolwyr:

**68%**
Datblygu sgiliau ar gyfer y gweithle.

**64%**
Dechrau chwilio am swydd.

**62%**
Ymgymryd ag addysg a hyfforddiant.

**59%**
Gwella eu sgiliau chwilio am swydd.

**Mae 42%**
Symud i gyflogaeth barhaus

**Mae bron i un o bob pump yn helpu pobl sefydlu busnes neu fenter** gymdeithasol.

# Anghenion lluosog a chymhleth

Mae anghenion lluosog a chymhleth yn gyfuniad o salwch meddwl, digartrefedd, defnyddio cyffuriau ac alcohol, a hanes o droseddu. Mae trais, cam-drin ac afiechyd meddwl yn fwy canolog i ferched; mae gan dros hanner y merched sy'n oedolion brofiad o o leiaf un o'r rhain yn oedolion, o'i gymharu â lleiafrif o ddynion.

Mae ein cyllid yn y maes hwn yn cefnogi pobl ag un neu fwy o'r anghenion hyn. **Rhwng 2016–17 a 2020–21 dyfarnwyd bron i £1.3 biliwn drwy 16,953 o brosiectau a rhaglenni** i'r perwyl hwn.

Ers 2011, mae chwe buddsoddiad mawr wedi cefnogi pobl ag anghenion cymhleth. Bywydau Boddhaus yw ein buddsoddiad **wyth mlynedd,** gwerth £112 miliwn i brofi ffyrdd newydd o sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n gweithio iddynt.

Ar ôl dwy flynedd gyda Bywydau Boddhaus, mae cyfranogwyr yn lleihau eu defnydd o wasanaethau cyhoeddus o **£2,680 y pen y flwyddyn o leiaf, neu dros £3 miliwn bob blwyddyn**, oherwydd gostyngiadau mewn troi allan, defnyddio llety dros dro, gofal ysbyty a rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol.

Mae llawer o brosiectau a ariennir sy'n targedu pobl ag anghenion lluosog a chymhleth yn defnyddio eu grant i wneud eu gwasanaethau'n fwy hygyrch. Mae un o bob pump (18%) yn cynnig gwasanaethau y tu allan i oriau swyddfa confensiynol, a bron i chwarter (23%) yn yn dweud eu bod yn cynyddu ac yngwella mynediad drwy gael eu cydgysylltu'n wellneu eu cydleoli â gwasanaethau eraill.

Bob blwyddyn mae 16% o ddeiliaid grantiau yn dweud eu bod yn defnyddio eu cyllid i dargedu pobl ag anghenion lluosog a chymhleth.

Yn ogystal â gwelliannau iechyd a lles pwysig i gyfranogwyr, mae'r cymorth hwn hefyd yn cyfrannu at:

**30%**
Gwell cyllid personol.

**29%**
Llai o bobl yn ymddieithrio oddi wrth neu gwrthod gwasanaethau.

**21%**
Gwell sefyllfa o ran tai.

**17%**
Llai o droseddu.

# Sero net

Ers 2016, rydym wedi **dyfarnu £397** miliwn drwy fwy na **6,000 o grantiau sy'n** cynnwys gweithredu **amgylcheddol**, sy'n cynnwys **bwyd, gwastraff a defnydd, ynni, trafnidiaeth a'r amgylchedd naturiol.**

Y Gronfa Gweithredu Hinsawdd yw ein rhaglen **fwyaf uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd hyd yma;** ymrwymiado **£100 miliwn dros** 10 mlynedd i gefnogi cymunedau i arwain ar weithredu effeithiol ar y newid yn yr hinsawdd ac adeiladu symudiad **ehangach onewid**, lle mae cymunedau ledled y DU yn cael eu hysbrydoli i weithredu.

Mewn blwyddyn nodweddiadol, mae **16%** o'r holl ddeiliaid grantyn cynnig gweithgareddau amgylcheddol, gan gynt yn cadwraeth, tyfu bwyd, cynhyrchu ynni neu ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae ein hymchwil yn dangos bod y grantiau hyn yn fwy tebygol **na'r** cyfartaledd o gyfrannu at **fuddion** cymunedol fel mwy o **falchder ac ymdeimlad o berthyn lleol.**

Roedd Cymunedau'n Byw'n Gynaliadwy yn rhaglen £12 miliwn a oedd yn cynnwys 60,000 o bobl wrth leihau eu hôl troed carbon. Fodd bynnag, **ystyriwyd mai** gwell lles oedd ei **waddol** mwyaf efallai – gan gynyddu 30 pwynt o'r darlleniad sylfaenol.

Drwy Hwb Gweithredu yn yr Hinsawdd, rydym wedi darparu **hyd at £15,000** ynghyd â chymorth mentora i 65 o brosiectau presennol i leihau eu hôl troed carbon.



Lansio'r Gronfa Gweithredu Hinsawdd

# Grantiau argyfwng coronafeirws

Ar draws y DU, symudwyd yn gyflym i ymateb i'r argyfwng coronafeirws. Fe wnaethom ysgogi arian y Loteri Genedlaethol, gwneud grantiau ar ran y Llywodraeth a gweithio gyda rhwydweithiau a oedd mewn sefyllfa dda i gyrraedd cymunedau oedd fwyaf mewn perygl o brofi effaith andwyol o'r pandemig.

Fe wnaethom ddyfarnu bron i £386 miliwn o grantiau argyfwng drwy bron i **19,000 o ddyfarniadau** (£180 miliwn oedd arian y Loteri Genedlaethol ac yr oedd £206 miliwn ar ran y Llywodraeth yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).*

## Lloegr

**Cyfanswm ein buddsoddiad argyfwng yn Lloegroedd £338 miliwn:** £187 miliwn* ar ran DCMS, drwy Gronfa Cymorth Cymunedol y Coronafeirws (CCSF) a **£151 miliwn** o gyllid yLoteri Genedlaethol.

**Heb y cyllid hwn, byddai hanner (56%) o ddeiliaid grantiau wedi darparu llawer llai o wasanaethau a byddai bron i un o bob pump (17%) wedi gorfod cau neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau'n gyfan gwbl.**



**95%**

o fuddiolwyr **wedi cael** mwy nag un canlyniad cadarnhaol megis gwell iechyd meddwl **neu lai o unigrwydd**, a 81% **wedi** profi pedwar budd neu fwy.

**52%**

o weithgareddau a ariannwyd wedi helpu i leihau neu atal yr angen am wasanaethau cyhoeddus, gan leihau effaith y pandemig ar ddarparwyr rheng flaen hanfodol a'r Llywodraeth.

**19%**

o ddeiliaid grantiau yn defnyddio eu grant i ddod â staff **yn ôl neu atal** staff rhag mynd ar ffyrlo, gyda bron i **10,000** o aelodau staff yn cael eu **cadw mewn gwaith neu'n dod yn ôl i'r gwaith.**

Fe wnaeth grantiau helpu deiliaid grantiau **i gyflogi** 6,750 o staff newydd ac

Yn gyffredinol, cyrhaeddodd yr arian hwn dros **10.9 miliwn** o fuddiolwyr drwy'r ddwy raglen.

*I gael manylion llawn yr holl grantiau a ddosbarthwyd yn y flwyddyn ariannol 2020-21, gweler ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020–21.

*Dyrannwyd £200m i'r CCSF a dosbarthwyd £187m ar ôl didynnu costau gweinyddu a gwerthuso.

# Grantiau argyfwng coronafeirws

## Yr Alban

Fe wnaethom **1,648 o ddyfarniadau argyfwng, sef cyfanswm o £21 miliwn**, drwy arian y Loteri Genedlaethol adwy gronfa ar ran Llywodraeth yr Alban.

- Fe wnaeth y Gronfa Cefnogi Cymunedau gefnogi sefydliadau angori i weithio mewn partneriaeth â grwpiau lleol iddiwallu anghenion brys.
- Helpodd y Gronfa Adfer Cymunedau i **ailadeiladu gwasanaethau** lleol allweddol fel banciau bwyd.



## Cymru

Buom yn gweithio gyda chyllidwyr eraill i sicrhau ymateb cydgysylltiedig, gan gynnal wyth rhaglen ariannu rhwng pedwar sefydliad.

Fe wnaethom ddyfarnu dros **£9 miliwn** o arian argyfwng y Loteri Genedlaethol, **gan gynnwys dros £2 filiwn o** ddyrchafiadau grant fel **y gallai** cynifer o sefydliadau gwirfoddol â phosibl gynnal neu ehangu eu gwasanaethau presennol; diwallu anghenion newydd; **a'u troi'n ôl rhag gorfod cau neu roi'r gorau i ddarparu** gwasanaethau.



## Gogledd Iwerddon

Fe wnaethom **892** oddyfarniadau, sef cyfanswm o **£16 miliwn**, yr oedd tua £9 miliwn ohono drwy Gronfa Elusennau COVID-19, ar ran yr Adran Cymunedau.

Helpodd hyn dros **50 o** elusennau i ddatrys problemau llif **arian, parhau neu newid eu gwasanaethau, arbed swyddi,** targedu ffrydiau ariannu **newydd**, ac **osgoi cau**.



# Grantiau argyfwng coronafeirws

## Ledled y DU

Fe wnaeth dros £1 miliwn mewn dyrchafiadau brys yn helpu deiliaid grantiau presennol i ateb y galw **cynyddol, ad-drefnu** eu **modelau** cyflenwi ac ymdrin â cholledion ariannol **a gafwyd yn ystod y cyfnod clo.**

Fe wnaeth y **Gronfa** Dyfodol Newydd ddyfarnu dros £2 filiwn i fwy na 50 o sefydliadau a phartneriaethau i brosesu'r hyn yr oeddent wedi bod drwyddo yn ystod y pandemig a dechrau gweithio i **ddychmygu'r hyn** a allai fod yn bosibl yn yr arferol newydd.



Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi cipolwg yn unig  o'n heffaith. Gallwch ddarllen 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf: Mae ein hadroddiad effaith' yn llawn yn – tnlcommunityfund.org.uk/impact-report




Ffynnu, Cymru

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yw'r ariannwr mwyaf o weithgarwch cymunedol yn y DU – rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu a llwyddo.

Wrth wraidd ein gwaith mae'r gred bod cymunedau'n ffynnu pan fydd pobl yn arwain. Rydym yn gwrando, yn cydweithio ac yn ariannu fel y gallwn gefnogi syniadau gwych sy'n gwneud i bethau da ddigwydd.

# Cysylltwch â ni

**I gael gwybod mwy am ein grantiau a'n hymchwil:**

**Ewch i'n gwefan:** tnlcommunityfund.org.uk
**Ebost**: knowledge@tnlcommunityfund.org.uk
**Ffoniwch ein llinell gyngor:** 0345 4 10 20 30
**Trosglwyddo Testun:** 18001 plus 0345 4 10 20 30
**Darllen ein hadroddiadau Mewnwelediad:**
tnlcommunityfund.org.uk/insights

Tachwedd 2021

**Ymwadiad cyfreithiol**

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd straeon personol am ddeiliaid grantiau a staff ac yn rhannu enghreifftiau o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda i eraill. Nid yw unrhyw farn, meddyliau na safbwynt a fynegir gan ddeiliaid grantiau a staff o reidrwydd yn cynrychioli barn, meddyliau na safbwynt Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ("y Gronfa"). Nid yw'r Gronfa yn cymeradwyo nac yn argymell unrhyw sefydliad a grybwyllir, ac nid yw ychwaith yn cymeradwyo unrhyw gynnwys allanol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

Ni ddylid cymryd cynnwys yr adroddiad hwn fel cyfarwyddyd, arweiniad na chyngor ac ni ddylech ddibynnu ar y wybodaeth yn yr adroddiad hwn fel dewis amgen i gyngor proffesiynol.

I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid yw'r Gronfa'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb ac mae'n gwadu pob atebolrwydd i unrhyw drydydd parti sy'n honni ei fod yn defnyddio neu'n dibynnu am unrhyw reswm o gwbl ar yr adroddiad, ei gynnwys, casgliadau, unrhyw ddarn, ail-ddehongliad, gwelliant a/neu addasiad gan unrhyw drydydd parti ar eu risg eu hunain yn gyfan gwbl. Nid ydym yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantau, boed yn ddatganedig neu'n oblygedig, bod cynnwys yr adroddiad hwn yn gywir, yn gyflawn neu'n gyfredol.

© Hawlfraint y Goron 2021.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yng Nghronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, 1 Plough Place, Llundain, EC4A 1DE, neu gallwch anfon e-bost atom yn knowledge@tnlcommunityfund.org.uk.